OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2015 Rhif 990 (Cy. 67) (C. 67)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

2015 No. 990 (W. 67) (C. 67)

WILDLIFE, WALES

The Infrastructure Act 2015 (Commencement) (Wales) Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Seilwaith 2015 (p.7) ("Deddf 2015").

Mae rheoliad 2 yn dwyn Rhan 4 o Ddeddf 2015 (rheolaeth amgylcheddol ar rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion), sef adrannau 23, 24 a 25, i rym ar 12 Ebrill 2015 mewn perthynas â Chymru.

Mae adran 23 o Ddeddf 2015 yn mewnosod isadran 14(4A) newydd i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ("Deddf 1981") sy'n darparu bod mesurau sy'n ymwneud â chytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau yn cael eu cynnwys mewn Atodlen 9A newydd i'r Ddeddf honno.

Mae adran 24 o Ddeddf 2015 yn diwygio Rhan I o Atodlen 9 i Ddeddf 1981 fel ei bod yn cael ei rhannu yn dair Rhan benodol.

Mae adran 25 o Ddeddf 2015 yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 1981.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which apply in relation to Wales, are made under the Infrastructure Act 2015 (c.7) ("the 2015 Act").

Regulation 2 brings Part 4 of the 2015 Act (environmental control of animal and plant species), namely sections 23, 24 and 25, into force on 12 April 2015 in relation to Wales.

Section 23 of the 2015 Act inserts a new subsection 14(4A) into the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69) ("the 1981 Act") providing for measures relating to species control agreements and species control orders to be contained in a new Schedule 9A to that Act.

Section 24 of the 2015 Act amends Part I of Schedule 9 to the 1981 Act so that it is divided into three distinct Parts.

Section 25 of the 2015 Act makes consequential changes to the 1981 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

NODYN YNGHYLCH RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Dygwyd y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Seilwaith 2015 i rym drwy reoliadau cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

Darpariaeth yn y Ddeddf	*Y dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Rhan 1 Adrannau 1 i 20 *(y gweddill)*	5 Mawrth 2015	2015/481 (C. 26)
Adran 23 *(mewn perthynas â Lloegr yn unig)*	Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015	2015/481 (C. 26)
Adrannau 24 a 25 (*mewn perthynas â Lloegr yn unig)*	5 Mawrth 2015	2015/481 (C. 26)
Adran 26	Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015	2015/758 (C.41)
Adran 28 *(y gweddill)*	Cychwynnir yn rhagolygol ar 14 Gorffennaf 2015	2015/758 (C.41)
Adran 41	Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015	2015/481 (C. 26)
Adran 42	Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015	2015/481 (C. 26)
Atodlen 7	Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015	2015/481 (C. 26)

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT REGULATIONS

(This note is not part of the Regulations)

The following provisions of the Infrastructure Act 2015 were brought into force by commencement regulations made before the date of these Regulations.

Provision of the Act	*Date of commencement*	*S.I. No.*
Part 1 Sections 1 to 20 *(remainder)*	5 March 2015	2015/481 (C. 26)
Section 23 *(in relation to England only)*	Prospectively commenced on 12 April 2015	2015/481 (C. 26)
Sections 24 and 25 (*in relation to England only)*	5 March 2015	2015/481 (C. 26)
Section 26	Prospectively commenced on 12 April 2015	2015/758 (C. 41)
Section 28 *(remainder)*	Prospectively commenced on 14 July 2015	2015/758 (C. 41)
Section 41	Prospectively commenced on 12 April 2015	2015/481 (C. 26)
Section 42	Prospectively commenced on 12 April 2015	2015/481 (C. 26)
Schedule 7	Prospectively commenced on 12 April 2015	2015/481 (C. 26)

2015 Rhif 990 (Cy. 67) (C. 67)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

Gwnaed *24 Mawrth 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 57(4)(b) o Ddeddf Seilwaith 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enw

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015.

Darpariaeth sy'n dod i rym ar 12 Ebrill 2015

2. Mae Rhan 4 o Ddeddf Seilwaith 2015 (rheolaeth amgylcheddol ar rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion) yn dod i rym ar 12 Ebrill 2015 i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru.

Carl Sergeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
24 Mawrth 2015

©ⓑHawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) 2015 p.7.

2015 No. 990 (W. 67) (C. 67)

WILDLIFE, WALES

The Infrastructure Act 2015 (Commencement) (Wales) Regulations 2015

Made *24 March 2015*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 57(4)(b) of the Infrastructure Act 2015(**1**), make the following Regulations.

Title

1. The title of these Regulations is the Infrastructure Act 2015 (Commencement) (Wales) Regulations 2015.

Provision coming into force on 12 April 2015

2. Part 4 of the Infrastructure Act 2015 (environmental control of animal and plant species) comes into force on 12 April 2015 so far as it relates to Wales.

Carl Sergeant

Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers
24 March 2015

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2015 c.7.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2015 Rhif 990 (Cy. 67) (C. 67)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

2015 No. 990 (W. 67) (C. 67)

WILDLIFE, WALES

The Infrastructure Act 2015 (Commencement) (Wales) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11064-7

9 780348 110647

£4.25

W2259/04/15 ON